

/|\

Gorsedd Cymru

MAES ASTUDIAETH YR ARHOLIADAU

2023 – 2024 - 2025

**Urdd Derwydd Trwy Arholiad:
Gwisg Werdd**

AMODAU A CHYFARWYDDIADAU

Trefnydd yr Arholiadau:

Dr W. GWYN LEWIS (Gwyn o Arfon)
Llys Cerdd, 80 Cae Gwyn, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1LL
☎ 01286 676651
e-bost: wgwyn.lewis@btinternet.com

Ysgrifennydd Aelodaeth:

D. HUGH THOMAS (Huw Tomos)
Bryn Helyg, Corntown Road, Ewenni, Bro Morgannwg, CF35 5BH

CYNNWYS

	Tud.
Cyflwyniad	3
Tair Urdd yr Orsedd, Aelodaeth ar sail Gradd	4
Amcanion yr Orsedd, Cyn-bapurau, Llyfrau gosod, Tystysgrifau	5
Panel yr Arholwyr	6
Maes Astudiaeth Barddoniaeth, Iaith a Llenyddiaeth (cyfansawdd)	7
Maes Astudiaeth Iaith	9
Maes Astudiaeth Barddoniaeth	11
Maes Astudiaeth Llenyddiaeth	12
Maes Astudiaeth Cerddoriaeth	13
Maes Astudiaeth Telynorion	15
Maes Astudiaeth Cerdd Dant	18
Ffurflen Arholiad	19
Amodau a Chyfarwyddiadau	20

MAES ASTUDIAETH YR ARHOLIADAU 2023 – 2024 – 2025

Y mae'n bleser gennyf gael cyflwyno'r Maes Astudiaeth newydd hwn ar gyfer arholiadau Gorsedd Cymru 2023-2024-2025 i'ch sylw.

Diolchaf i Banel yr Arholwyr am eu gwaith yn llunio'r gwahanol feysydd astudiaeth a mawr hyderaf y byddwch yn canfod rhywbeth a fydd yn mynd â'ch bryd yn y meysydd a baratowyd ar eich cyfer.

Y mae'r Orsedd yn falch o anrhydeddu'r sawl sy'n barod i sefyll yr arholiadau trwy ddilyn meysydd astudiaeth mewn barddoniaeth, rhyddiaith, iaith, cerddoriaeth, cerdd dant, ynghyd ag arholiad arbennig i delynorion. Gobeithio y bydd nifer ohonoch yn penderfynu dilyn y llwybr hwn ac y caf y fraint o'ch cyflwyno i'r Archdderwydd wrth y Maen Llog pan fyddwch yn cael eich urddo yn aelodau o Urdd Derwydd Gorsedd Cymru Trwy Arholiad (Gwisg Werdd).

Pob hwyl ar yr astudio!

Gwyn o Arfon
Trefnydd yr Arholiadau

TAIR URDD YR ORSEDD

Perthyn i'r Orsedd dair urdd sy'n gydradd:

Urdd Derwydd - Gwisg Wen: Enillwyr prif wobrau'r Eisteddfod Genedlaethol

Urdd Derwydd – Gwisg Werdd: Y Celfyddydau – ynghyd â thrwy arholiad ac ar sail gradd. Rhaid llwyddo mewn dau arholiad yn eich dewis faes cyn cael eich urddo i Urdd Derwydd (Gwisg Werdd) Trwy Arholiad.

Urdd Derwydd - Gwisg Las: Gwasanaeth i'r genedl

Bydd y Derwyddon a enillodd Gadair neu Goron yr Eisteddfod yn Brifeirdd yng Ngorsedd, a'r rhai a enillodd y Fedal Ryddiaith yn Brif Lenorion.

Aelodaeth ar sail gradd

Ystyrir ceisiadau i ddod yn aelodau o'r Orsedd ar sail gradd trwy gysylltu â'r Cofiadur **cyn 1 Mai**:

Y Cofiadur (y Cyn-Archdderwydd Christine)
16 Kelston Road
Yr Eglwys Newydd
Caerdydd
CF14 2AJ
☎ 02920 628754
✉ Christine@eisteddfod.cymru

AMCANION YR ORSEDD

1. Gwneud ei rhan yn ôl Cyfansoddiad yr Eisteddfod Genedlaethol yn nhrefniant a rheolaeth yr Eisteddfod.
2. Gofalu am arferion a defodau'r Orsedd ynglŷn â'r Eisteddfod a chyfarwyddo'r Llys yn y materion hyn.
3. Sicrhau cydweithrediad beirdd, llenorion, cerddorion, a chelfyddydwyr er mwyn datblygu, hyrwyddo, a chyfoethogi barddas, llenyddiaeth, cerddoriaeth, a chelfyddyd yng Nghymru.
4. Cynnal seremonïau'r Orsedd yn y Cyhoeddi ac yn yr Eisteddfod.
5. Cadw cyswllt â'r Is-Orseddau a sefydlwyd ganddi, yn arbennig mewn gwledydd Celtaidd eraill.

CYN-BAPURAU

Gellir cael cyn-bapurau o unrhyw Adran o'r arholiadau am £1 yr un oddi wrth y Trefnydd.

LLYFRAU GOSOD

Lle bo anhawster prynu'r llyfrau gosod a nodir yn y gwahanol feysydd astudiaeth hyn, gellir eu benthyca trwy lyfrgell eich sir.

TYSTYSGRIFAU

Bydd pob ymgeisydd llwyddiannus yn derbyn Tystysgrif Aelodaeth yr Orsedd.

PANEL YR ARHOLWYR

Barddoniaeth, Iaith, a Llenyddiaeth (Rhyddiaith)

Llinos Dafis (Llinos Hafan)

Glenys George (Glenys Preseli)

John Gwilym Jones (Y Cyn-Archdderwydd John Gwilym)

Llion E Jones (Y Prifardd Llion)

Felicity Roberts (Anna Gwynfyd)

Cerddoriaeth

Valerie Ellis (Cerddores Dwyfor)

Ifor ap Gwilym (Ifor ap Gwilym)

Cefin Roberts (Y Prif Lenor Cefin)

Telynorion

Llio Penri James (Llio Penri)

Cerdd Dant

Einir Wyn Jones (Einir Teigl)

MAES ASTUDIAETH: BARDDONIAETH, IAITH, A LLENYDDIAETH (RHYDDIAITH)

URDD DERWYDD (GWISG WERDD)

*Gosodir yr Arholiadau hyn mewn dwy ran. Gosodir i gychwyn **Arholiad Cyntaf Cyfansawdd** i gwmpasu Barddoniaeth 1, Iaith 1, a Llenyddiaeth 1, a fydd yn rhoi sylw i faterion ieithyddol cyffredin i'r tair adran. Yn yr arholiad hwn bydd **Cwestiwn 1** a'r **Prawf Llafar** yn orfodol. Yna bydd yr ymgeiswyr yn dewis **un** o'r Adrannau (A, B neu C) yn ôl eu diddordebau arbenigol, i ateb cwestiynau ym maes Iaith neu Farddoniaeth neu Ryddiaith.*

*Yna, yn yr **Ail Arholiad** (Barddoniaeth 2, Iaith 2, a Llenyddiaeth 2), gosodir papurau penodol a fydd yn rhoi cyfle i'r ymgeiswyr arbenigo mewn Iaith, Barddoniaeth, neu Ryddiaith yn unol â'u dewis.*

ARHOLIAD CYNTAF CYFANSAWDD (Barddoniaeth 1, Iaith 1, a Llenyddiaeth 1)

Arholiad Ysgrifenedig (2½ awr) (75% o'r marciau)

Rhaid ateb **Cwestiwn 1** ac unrhyw **ddau gwestiwn** arall o unrhyw un o'r adrannau.

1. (Gorfodol) Cyfansoddi darn byr o ryddiaith (tuag un dudalen o'r papur ysgrifennu a ddarperir) ar un pwnc o blith dewis o destunau a roddir ar y pryd, i brofi gfael ar ramadeg a chystrawen mewn Cymraeg ysgrifenedig.

Adran A: Iaith

2. Gosodir nifer o frawddegau, a phob brawddeg yn cynnwys dau wall cyffredin. Disgwylir i'r ymgeisydd ailysgrifennu'r brawddegau gan gywiro'r gwallau. Ni raid nodi rhesymau dros y cwiriadau.

3. Gosodir rhestr o eiriau ac ymadroddion, a gofynnir i'r ymgeisydd gynnwys y rheiny mewn brawddegau gwreiddiol er mwyn dangos eu hystyr a'u defnydd.

4. Cyfieithu darn i'r Gymraeg. (Gofynnir i'r ymgeisydd hysbysu Trefnydd yr Arholiadau, wrth gofrestru ar gyfer yr Arholiad, pa iaith y dymuna gyfieithu ohoni. Caniateir defnyddio Geiriadur).

Adran B: Barddoniaeth

5. Cwestiwn ar gerddi yn y gyfrol **Cardiau Post**, Gerwyn Williams, Gwasg y Bwthyn, 2018.

6. Cwestiwn ar awdl Gwenallt Llwyd Ifan, 'Deffro', *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod AmGen 2021*, tt. 3-7.

7. Cyfansoddi darn byr o farddoniaeth ar un o blith dewis o destunau a osodir ar y pryd.

Adran C: Rhyddiaith

8. Cwestiwn ar y nofel *Cors Caron*, Meleri Wyn James, Y Lolfa, 2022.

9. Cwestiwn ar (i) Stori Fer 'Silff', Menna Machreth, *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Amgen 2021*, tt.99-103, a (ii) Ysgrif 'Arloesi', Morgan Owen, *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod AmGen 2021*, tt.112-114.

10. Cyfansoddi darn o ryddiaith ar destun a osodir ar y pryd (tuag un dudalen o'r papur ysgrifennu a ddarperir).

Prawf Llafar (hyd at 15 munud) (25% o'r marciau)

Nodir yr amser a'r lle gan y Trefnydd.

1. Darllen darn o ryddiaith a ddewisir gan yr arholwr ar y pryd.
2. Sgwrs anffurfiol yn cael ei harwain gan yr arholwr, yn dilyn agweddau megis cefndir personol, diddordebau, materion cyfoes a.y.y.b.

MAES ASTUDIAETH: IAITH

URDD DERWYDD (GWISG WERDD)

Rhaid llwyddo yn y ddau arholiad isod (ynghyd â'r prawf llafar)
cyn cael eich urddo

ARHOLIAD CYNTAF

Arholiad cyfansawdd, sylfaenol yn cwmpasu Barddoniaeth 1, Iaith 1, a Llenyddiaeth 1 (gweler tud. 7-8).

AIL ARHOLIAD: IAITH 2 (Tair awr)

1. **Cywirdeb iaith**

Gofynnir i'r ymgeisydd ddangos eu gwybodaeth am ffurfiau safonol y Gymraeg trwy gyfrwng cyfres o ymarferion byr, e.e.

(a) defnyddio geiriau/ymadroddion penodol mewn brawddegau i ddangos eu hystyron a'u defnydd yn eglur;

(b) golygu brawddegau trwy gywiro gwallau sydd wedi'u cynnwys ynddynt – cynhwysir gwallau cystrawen, sillafu, treiglo ac idiomau Seisnigaidd;

(c) addasu brawddegau ysgrifenedig trwy newid elfennau ynddynt, e.e. newid amser y ferf, person y ferf, troi araith union yn araith anunion, a.y.y.b.

2. **Ysgrifennu ffeithiol**

Ysgrifennu darn ffeithiol ar un testun o blith tri phwnc a roddir ar y pryd. Gofynnir i'r ymgeisydd ysgrifennu mewn ffurf megis adroddiad newyddiadurol, ysgrif, rhan o werslyfr, portread, rhagymadrodd i lyfr, a.y.y.b.

3. **Ysgrifennu creadigol**

Ysgrifennu darn creadigol ar un testun o blith nifer a roddir ar y pryd. Gellir ymateb ar ffurf ysgrif, stori, portread, dyddiadur, ymson neu flog.

4. **Cyfieithu**

Cyfieithu darn lled-ffeithiol i'r Gymraeg, e.e. rhan o adroddiad, hysbyseb, adolygiad, erthygl. (Bydd yr ymgeisydd yn hysbysu Trefnydd yr Arholiadau, ar ei ffurflen gais, o ba iaith y bydd yn dymuno cyfieithu).

5. **Ymateb i ddarn a mynegi barn**

Darperir erthygl fer ar fater o ddiddordeb cyfoes a disgwylir i'r ymgeisydd ymateb iddi ar ffurf llythyr, blog neu erthygl. Bydd yr ymateb yn profi gallu'r ymgeisydd i ddehongli cynnwys y darn darllen a mynegi barn ysgrifenedig.

Llyfrau defnyddiol cyffredinol ar gyfer yr arholiadau ym maes Iaith:

Canllawiau Iaith a Chymorth Sillafu, J. Elwyn Hughes (Gomer@Lolfa)

Canllawiau Ysgrifennu, J. Elwyn Hughes (Gwasg Gomer)

Cymraeg Da, Heini Gruffudd (Y Lolfa)

Cywiriadur Cymraeg, Morgan D. Jones (Gwasg Gomer)

Dawn a Chreffft, John G. Evans (Gwasg Gomer)

Dechrau Cyfieithu, Heini Gruffudd (Y Lolfa)

Geiriadur Idiomau, Alun Rhys Cownie, a Wyn G. Roberts (Gwasg Prifysgol Cymru)

Gramadeg Cymraeg Cynhwysfawr, David A. Thorne (Gwasg Gomer)

Gramadeg y Gymraeg, Peter Wynn Thomas (Gwasg Prifysgol Cymru)

Iawn Bob Tro, Dafydd Glyn Jones (Dalen newydd)

Rhestr o Enwau Lleoedd, Golygydd: Elwyn Davies (Gwasg Prifysgol Cymru)

Y Llyfr Berfau, D. Geraint Lewis (Gwasg Gomer)

Ymarfer Ysgrifennu, Gwyn Thomas (Gwasg Christopher Davies)

Y Golygiadur, Rhiannon Ifans (Cymdeithas Lyfrau Ceredigion)

Y Treigludur, D. Geraint Lewis (Gwasg Gomer)

MAES ASTUDIAETH: BARDDONIAETH

URDD DERWYDD (GWISG WERDD)

Rhaid llwyddo yn y ddau arholiad isod (ynghyd â'r prawf llafar)
cyn cael eich urddo

ARHOLIAD CYNTAF

Arholiad cyfansawdd, sylfaenol yn cwmpasu Barddoniaeth 1, Iaith 1, a Llenyddiaeth 1 (gweler tud. 7-8).

AIL ARHOLIAD: BARDDONIAETH 2 (Tair awr)

1. Gwybodaeth o'r Cynganeddion, ynghyd â gwybodaeth o'r mesurau mwyaf poblogaidd: Yr Englynion, Y Cywyddau, a'r Toddeidiau.

Bydd y llyfrau a ganlyn o gymorth:

Anghenion y Gynghanedd (fersiwn newydd), Alan Llwyd (Cyhoeddiadau Barddas)

Clywed Cynghanedd, Myrddin ap Dafydd (Gwasg Carreg Gwalch)

Crefft y Gynghanedd, Alan Llwyd (Cyhoeddiadau Barddas)

Y Gynghanedd Heddiw, Aneirin Karadog ac Eurig Salisbury (Cyhoeddiadau Barddas)

2. Cyfansoddi cerdd heb fod dros ugain llinell, caeth neu rydd, ar destun gosodedig.
3. Tueddiadau diweddar.

Astudier unrhyw **ddwy gyfrol o farddoniaeth** a gyhoeddwyd ers 2015.

Bydd y cwestiwn am farddoniaeth ddiweddar yn gyffredinol ei natur ond yn gofyn i chi dynnu ar enghreifftiau o waith **o leiaf ddau fardd cyfoes**.

4. Cerddi eisteddfodol diweddar.

Bydd cyfle i ymgeiswyr ymdrin ag unrhyw un o gerddi arobryn cystadlaethau'r Gadair a'r Goron o'r blynyddoedd 2010-2020.

MAES ASTUDIAETH: LLENYDDIAETH (RHYDDIAITH)

URDD DERWYDD (GWISG WERDD)

Rhaid llwyddo yn y ddau arholiad isod (ynghyd â'r prawf llafar)
cyn cael eich urddo

ARHOLIAD CYNTAF

Arholiad cyfansawdd, sylfaenol yn cwmpasu Barddoniaeth 1, Iaith 1, a Llenyddiaeth 1 (gweler tud. 7-8).

AIL ARHOLIAD: LLENYDDIAETH 2 (Tair awr)

1. Ysgrifennu ar un o nifer o destunau a roddir ar y pryd.
2. Ateb cwestiynau ar y cyfrolau a ganlyn:
 - (a) *Llyfr Glas Nebo*, Manon Steffan Ros (Y Lolfa, 2018)
 - (b) *tu ôl i'r awyr*, Megan Angharad Hunter (Y Lolfa, 2020)
 - (c) *Martha, Jac a Sianco*, Caryl Lewis (Y Lolfa, 2012)
 - (ch) *Te yn y Grug*, Kate Roberts (Y Lolfa, 2022)

MAES ASTUDIAETH: CERDDORIAETH

URDD DERWYDD (GWISG WERDD)

Rhaid llwyddo yn y ddau arholiad isod cyn cael eich urddo

Nod yr arholiadau: Perfformio, Cyfansoddi, Arfarnu [= dadansoddi]

ARHOLIAD CYNTAF: CERDDORIAETH 1 (Tair awr – gan gynnwys 20-30 munud ar gyfer cwestiwn 7 isod, sef trafodaeth lafar dan arweiniad yr arholwyr)

1. Elfennau cerddoriaeth mewn nifer o arddulliau cerddorol [Clasurol, Gwerin, *Jazz*, Pop ac yn y blaen]: amsernodau; cleffiau; cyfyngau (yn cynnwys cyfyngau cywasg ac estynedig); cyweirnodau; diweddebau; graddfeydd; mydr; tawnodau; termau cerddorol; trawsgyweirio; addurniadau; ffurfiau cerddorol.
2. Adnabod y pedair diweddeb: Perffaith, Amherffaith, Annisgwyl ac Eglwysig/*Amen* yn y cywair mwyaf neu'r lleiaf.
3. Ysgrifennu o'r cof un o'r alawon gwerin sy'n ddarn gosod yn adran Alawon Gwerin *Rhestr Testunau* yr Eisteddfod Genedlaethol ar gyfer y flwyddyn y bwriedir sefyll yr arholiad. Bydd yr arholwr yn nodi pa un o'r alawon y dylid ei hysgrifennu a bydd yn ofynnol gallu ei hysgrifennu yng nghleff y Trebl neu'r Bas.
4. Ysgrifennu alaw i eiriau gosodedig. Byddai gallu trawsgyweirio i gywair perthynol yn ystod yr alaw yn sicrhau mwy o farciau.
5. Cwblhau rhan o emyn-dôn a osodir ar gyfer SATB. Bydd peth o nodau'r soprano a pheth o ran y bas eisoes wedi eu gosod.
6. Cyfansoddi deuawd leisiol i eiriau gosodedig.
7. Ateb cwestiwn ar lafar a fydd yn gofyn i'r ymgeisydd drafod rhywfaint ar gyfraniad yr Eisteddfod Genedlaethol i'r byd cerddorol yma yng Nghymru a thu hwnt. Cynhelir y drafodaeth lafar hon ar Zoom dan arweiniad yr arholwyr (tua 20-30 munud).

Bydd yr ymgeisydd yn dangos amgyffrediad deallus a gwybodaeth gyffredinol am gerddoriaeth. Gofynnir i'r ymgeisydd drafod themâu oesol megis gwladgarwch, brawdoliaeth, hiraeth, crefydd, heddychiaeth, serch, rhyfel; pynciau sydd wedi amlygu eu hunain mewn cerddoriaeth ar hyd yr oesoedd. Gellir cyfeirio at nifer o arddulliau gan gynnwys Clasurol, Pop, Gwerin, *Jazz* ac yn y blaen.

AIL ARHOLIAD: CERDDORIAETH 2

Rhaid cwblhau Rhan1 a Rhan 2 isod.

Rhan 1

Naill ai: Perfformio rhaglen rhwng 8–10 munud. Dylid perfformio dau neu ragor o ddarnau offerynnol a/neu leisiol fel unawdydd neu fel rhan o *ensemble* mewn arddull(iau) o ddewis yr ymgeisydd. Gall y perfformiad fod i hunan-gyfeiliant, neu gyda chyfeilydd o ddewis yr ymgeisydd, neu'n ddigyfeiliant.

Neu: Cyflwyno rhaglen rhwng 8–10 munud yn arwain côr neu *ensemble* lleisiol neu offerynnol mewn arddull(iau) o ddewis yr ymgeisydd.

[Sylwer: cyfrifoldeb yr ymgeisydd fydd trefnu'r perfformiadau/rhaglenni gan anfon recordiad fideo yn ddigidol at Drefnydd yr Arholiadau (wgwyn.lewis@btinternet.com) erbyn dydd Llun, 17 Ebrill 2023.]

Neu: Cyflwyno traethawd estynedig (tua 4,000-5,000 o eiriau) ar unrhyw agwedd o Gerddoriaeth Gymraeg neu Gymreig. Yr union destun i'w drafod ymlaen llaw gyda'r arholwyr ar ddechrau Mawrth wrth gofrestru ar gyfer yr arholiadau. Dylid cyflwyno'r traethawd yn electronig i Drefnydd yr Arholiadau (wgwyn.lewis@btinternet.com) erbyn dydd Llun, 17 Ebrill 2023.

Rhan 2: trafodaeth ar Zoom dan arweiniad yr arholwyr (30 munud) – ar ddyddiad a bennir yn niwedd Ebrill

Naill ai: Trafod gyda'r arholwyr y rhesymau dros ddewis y rhaglen yn Rhan 1 a'i rhoi mewn cyd-destun hanesyddol/diwylliannol. Dylai'r ymgeisydd fod yn barod i drafod sut aethon nhw ati i ddehongli ac ymarfer y darnau (tua 30 munud).

Neu: Trafod gyda'r arholwyr y rhesymau dros ddewis testun y traethawd yn Rhan 1 gan ymhelaethu ar rai agweddau o'r gwaith (tua 30 munud).

MAES ASTUDIAETH: TELYNORION

URDD DERWYDD (GWISG WERDD)

Rhaid llwyddo yn y ddau arholiad isod cyn cael eich urddo

ARHOLIAD CYNTAF: TELYNORION 1 (1½ awr)

1. Ysgrifenedig

Gwrando ac astudio copi o ddyfyniad byr o gerddoriaeth telyn.

Gofynnir cwestiynau ar yr elfennau cerddorol a gwyd yn naturiol o'r dyfyniad: e.e. cleffiau: trebl a bas; cyfyngau; mydr; cyweirnodau: gwreiddiol a thrawsgyweiriadau posibl; harmoni: cordiau a'u gwrthdroadau; termau cerddorol: tempo, dynameg ac ynganiad.

2. Ysgrifenedig

Trosi tua 2 far o gerddoriaeth hanner-tôn neu dôn i fyny neu i lawr, e.e. 2 far agoriadol cainc Cerdd Dant.

3. Llafar (c. 20 munud)

Viva voce: cyflwyniad llafar ar y darn gan gyfansoddwr o Gymru y mae'r ymgeisydd am ei chwarae yn yr ail arholiad (Telynorion 2). Yn ogystal â sôn am ofynion technegol a mynegiannol y darn, disgwylir y bydd yr ymgeisydd yn gosod y darn a'r cyfansoddwr yn gryno yng nghyd-destun hanes y delyn yng Nghymru a thu hwnt yn unol â pherthnasedd y darn.

AIL ARHOLIAD: TELYNORION 2 (Prawf Ymarferol)

1. Cyflwyno dau ddarn cyferbyniol o ddewis yr ymgeisydd ar naill ai telyn gyngerdd, telyn geltaidd neu telyn deires:

- mae'n rhaid i'r ddau ddarn fod yn gyffelyb i safon Gradd 7 y byrddau cerdd cyhoeddus neu'n uwch
- mae'n rhaid i'r ail ddarn a gyflwynir fod yn ddarn gan gyfansoddwr o Gymru (gweler isod):

Mae nifer o gyfansoddwyr o Gymru, neu sydd â chysylltiad cryf â Chymru, wedi cyfansoddi ar gyfer y delyn. Mae eu cynnyrch yn amrywiol ac yn ddiddorol gan gynnig her i berfformiwr. Mae rhestr o'r cyfryw gyfansoddwyr yn cynnwys:

John Parry, Edward Jones, John Thomas, Grace Williams, Alun Hoddinot, William Mathias, Jeffrey Lewis, John Metcalf, Mervyn Burtch, Rhian Samuel, Gareth Glyn, Guto Puw.

Isod wele enghreifftiau o ddarnau a threfniannau o ddarnau gan gyfansoddwyr o Gymru a ystyrir o safon gradd 7 ac uwch

- John Parry: *Sonata rhif 3 yn F* allan o **4 Sonata**: (Salvi)
- John Parry: *Sonata rhif 2 yn G*, unrhyw 2 symudiad: **Parry 4 Sonatas** gol. Williams (Salvi)
- John Thomas: *Autumn* neu *Winter*, rhif 3 neu 4 o'r **Tymhorau** (cyh. ar wahân Adlais)
- John Thomas: *Selected Studies*, rhif 2 yn Bb minor neu rhif 4 yn Gb (Adlais)
- Alun Hoddinot: **Suite for Harp**, Op. 52 rhif 1 (O.U.P)
- William Mathias: **Improvisations for Harp**, Op. 10 (O.U.P.)
- Edward Jones: *Pant Corlan yr Ŵyn* rhif 3 o **Clasuron Edward Jones** gol. Heulyn (Alaw)
- tr. Meinir Heulyn: *Pedair Waltz o Gymru*, rhif 1 o **Gwledd Geltaidd/A Celtic Feast** cyf. 1 (Alaw)
- David Watkins: *Prelude, Nocturne* neu *Fire Dance* o **Petite Suite** (UMP)

Meini Prawf Asesu

Bydd perfformiad ymgeiswyr yn cael ei asesu o safbwynt:

- cywirdeb traw a rhythm
- rhwyddineb mynegiant
- argyhoeddi wrth ddehongli
- arddangos dealltwriaeth o arddull ac o gyfnod
- arddangos sensitifrwydd wrth ymdrin ag amseriad, brawddeg, dynameg, ynganu ac ati
- medr technegol perthnasol cadarn.

2. Cyfeilio Cerdd Dant:

Dewisir **dw** o'r ceinciau isod ar y pryd gan yr arholwr:

- *Ymdaith yr Yswain*: tr. Telynores Maldwyn, **Llyfr Wyth o Geinciau Cerdd Dant**
- *Breuddwyd Rhysyn Bach*: **Deg Cainc**
- *Traeth Lafan*: Gareth Mitford Williams, **Ceinciau'r Allwedd (y gyfrol gyntaf) NEU Allwedd y Tannau, 36 + 65**
- *Rita*: Bethan Bryn, **Stelcian**

Disgwylir bod yr ymgeisydd yn gallu cyfeilio **tôn yn is** a **thôn yn uwch** (ar gais yr ymgeisydd, gall y Trefnydd ddarparu copïau o'r trawsgyweiriadau).

Fe all fod y gosodiad ar gainc *Breuddwyd Rhysyn Bach* (mydr 3 churiad i'r bar) yn groes-acen.

Meini Prawf Asesu

- cyfeiliant hyderus a chadarn
- cywirdeb traw a rhythm
- arddangos sensitifrwydd ac empathi llwyr gyda'r datgeinydd

- gallu cyfeilio mewn cywair is/uwch gyda'r un rhwyddineb

3. Naill ai:

(a) Chwarae alaw werin/ddawns, a pherfformio dau amrywiad byr ar yr alaw wreiddiol.

Pwysleisir nad prawf cyfansoddi yw hwn; yn hytrach, profi dawn ymarferol y telynor i greu amrywiad tra bod offeryn/offerynnau eraill yn chwarae'r brif alaw, gan gadw ysbryd yr alaw wreiddiol; gellid ystyried patrymau cordiol neu *arpeggi*, datblygu motifau o fewn y gerddoriaeth wreiddiol, datblygu patrymau mwy rhythmig, chwarae cyfalaw ac ati.

Nid oes angen i'r amrywiad fod yn gymhleth.

Meini Prawf Asesu

- rhwyddineb perfformio
- arddangos dealltwriaeth o arddull
- cadw amseriad cadarn a chwarae rhythmig yn unol â naws yr alaw

Neu:

(b) **Graddfa: 1** graddfa fwyaf o ddewis yr ymgeisydd; **3** wythawd, dwy law ar y cyd, wythawd ar wahân.

***Arpeggio*: 1 *arpeggio* o ddewis yr ymgeisydd; dwy law ar y cyd; safle gwreiddiol a gwrthdro cyntaf.**

Meini Prawf Asesu

- cywirdeb
- ystwythder byseddu
- rhwyddineb perfformio

Neu:

(c) **Darllen ar y pryd: rhoddir oddeutu 2 funud i'r ymgeisydd edrych dros, ac os dymunir, roi cynnig ar chwarae cyn yr asesiad.**

Meini Prawf Asesu

- datganiad sy'n argyhoeddi gan dalu sylw priodol i amseriad addas a chywirdeb traw a rhythm

MAES ASTUDIAETH: CERDD DANT

URDD DERWYDD (GWISG WERDD)

Rhaid llwyddo yn y ddau arholiad isod cyn cael eich urddo

ARHOLIAD CYNTAF: CERDD DANT 1 (Gwaith Cwrs)

Ar gyfer arholiad 2023: Cyfansoddi gosodiad deulais neu fwy ar gyfer y cywydd 'Telynu teires', Myrddin ap Dafydd (*Allwedd y Tannau*, 81, 2022), ar gainc o ddewis yr ymgeisydd. Gellir cael copi o'r cywydd drwy gysylltu â Threfnydd yr Arholiadau.

Dylid anfon y gosodiad yn ddigidol at Drefnydd yr Arholiadau (wgywyn.lewis@btinternet.com) erbyn dydd Gwener, 7 Ebrill 2023.

AIL ARHOLIAD: CERDD DANT 2 (Dwy awr)

(a) Prawf Llafar (oddeutu 30 munud)

1. Trafod gyda'r Arholwr rai o'r problemau a gyfyd wrth osod cywydd a sut aethpwyd ati i ddewis cainc ar gyfer 'Telynu teires'. Dylid bod yn barod i ymdrin â gofynion y geiriau, y cyfalawon ac unrhyw linellau cynganeddol.
2. Bydd cyfle i arddangos dealltwriaeth ehangach o gerdd dant trwy drafod yr heriau sy'n wynebu gosod amrywiol fesurau caeth a rhydd.

(b) Prawf Ymarferol (Awr a hanner)

Cyfansoddi gosodiad i eiriau a chainc o ddewis yr Arholwr. Darperir fersiwn 'midi' o'r gainc os dymunir.

Gweler rhestr o lyfrau defnyddiol isod ar gyfer y ddau arholiad:

Allwedd y Tannau, Cylchgrawn Cymdeithas Cerdd Dant Cymru

Anghenion y Gynghanedd (fersiwn newydd), Alan Llwyd (Cyhoeddiadau Barddas)

Cerdd Dant - Llawlyfr Gosod, Aled Lloyd Davies (Gwasg Gwynedd, 1983)

Hud a Hanes Cerdd Dannau, Aled Lloyd Davies (Cymdeithas Cerdd Dant, 1985)

Clywed Cynghanedd, Myrddin ap Dafydd (Gwasg Carreg Gwalch, 1994)

FFURFLEN ARHOLIAD GORSEDD CYMRU

Bwriadaf sefyll Arholiad(au) Gorsedd Cymru ddiwedd Ebrill nesaf.

Enw llawn:

Cyfeiriad:

Rhif ffôn: Ebst:

Dymunaf sefyll yr arholiad(au) a ganlyn (noder â ✓):

ARHOLIAD 1

Barddoniaeth 1, Iaith 1, Llenyddiaeth 1 (**un** arholiad cyntaf cyfansawdd)

Cerddoriaeth 1 Telynorion 1 Cerdd Dant 1

ARHOLIAD 2

Barddoniaeth 2 Iaith 2 Llenyddiaeth 2

Cerddoriaeth 2 Telynorion 2 Cerdd Dant 2

Amgaeaf y tâl priodol am sefyll yr arholiad(au):
(£5 am bob arholiad) =

Anfonwch y cyn-bapurau a ganlyn i mi @ £1 yr un:

Arholiad Urdd

Blynyddoedd =

Cyfanswm: =

Yr wyf dros 16 mlwydd oed.

Arwyddwyd: Dyddiad:

Dychweler y ffurflen hon gyda'r tâl priodol i:
Dr W Gwyn Lewis (Gwyn o Arfon), Trefnydd yr Arholiadau,
Llys Cerdd, 80 Cae Gwyn, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1LL,
erbyn 1 Mawrth, os gwelwch yn dda.

AMODAU A CHYFARWYDDIADAU

1. Cynhelir yr arholiadau ysgrifenedig ar y Sadwrn olaf yn Ebrill mewn canolfannau cyfleus. Ar gyfer y profion ymarferol a'r trafodaethau llafar (a gynhelir naill ai mewn canolfan neu ar Zoom) bydd y Trefnydd yn hysbysu'r ymgeiswyr o'r amser a'r lle.
2. Rhaid i ymgeiswyr roi rhybudd o'u bwriad i sefyll arholiad i Drefnydd yr Arholiadau **cyn 1 Mawrth** ymhob blwyddyn. Dylid nodi am ba arholiad y dymunir gwneud cais a dylid anfon y blaendâl priodol ato:
Arholiad 1 - £5; Arholiad 2 - £5.
3. Hysbysir yr ymgeiswyr yn brydlon o'r lle a'r amser y cynhelir yr arholiadau ysgrifenedig a dylent fod yn eu lle erbyn amser dechrau. Yn arferol, bydd arholiad y bore yn cychwyn am 10.00, ac arholiad y prynhawn am 2.00.
4. Rhaid i'r atebion fod mewn Cymraeg ysgrifenedig, ac eithrio yn y profion llafar (Iaith, Cerddoriaeth, Telynorion, a Cherdd Dant), lle disgwylir i'r ymgeiswyr **draffod** yn Gymraeg. Darperir papur ysgrifennu ar gyfer pob ymgeisydd (gan gynnwys papur cerddoriaeth). Ni chaniateir i ymgeiswyr edrych ar unrhyw lyfr yn ystod yr arholiad ysgrifenedig (ac eithrio defnyddio geiriadur ar gyfer y cwestiynau cyfieithu yn yr arholiadau Iaith) na cheisio unrhyw fantais arbennig.
5. Gall ymgeiswyr sefyll y ddau arholiad yr un flwyddyn, ac ar yr un diwrnod.
6. Hysbysir yr ymgeiswyr o ganlyniad yr arholiad yn union wedi derbyn dyfarniad yr Arholwyr. Urddir y rhai llwyddiannus mewn Gorsedd Agored fore Llun yr Eisteddfod Genedlaethol (ni ellir urddo drwy gynrychiolydd) a chyflwynir Tystysgrif Aelodaeth yr Orsedd i'r ymgeiswyr llwyddiannus.
7. Nid urddir ac ni chaiff neb ei gyfrif yn aelod o'r Orsedd drwy arholiad oni bai ei fod wedi llwyddo yn yr arholiadau a ganlyn:
 - (i) Arholiad cyfansawdd Barddoniaeth 1, Iaith 1, Llenyddiaeth 1 ac arholiad Barddoniaeth 2;
neu
 - (ii) Arholiad cyfansawdd Barddoniaeth 1, Iaith 1, Llenyddiaeth 1 ac arholiad Iaith 2;
neu
 - (iii) Arholiad cyfansawdd Barddoniaeth1, Iaith 1, Llenyddiaeth 1 ac arholiad Llenyddiaeth 2;
neu
 - (iv) Arholiadau Cerddoriaeth 1 a 2;
neu
 - (v) Arholiad Telynorion 1 a 2;
neu
 - (vi) Arholiadau Cerdd Dant 1 a 2

8. Wedi derbyn hysbysiad o lwyddiant yn yr arholiad cyntaf a'r ail, rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus ddanfôn at yr Ysgrifennydd Aelodaeth (Huw Tomos) y tanysgrifiad blynyddol i'w cofrestru'n aelodau o Lys yr Eisteddfod Genedlaethol (£10 y flwyddyn; neu £5 y flwyddyn i rai dan 25 oed). Ni pharheir aelodaeth neb heb iddynt dalu'r tanysgrifiad hwn. Gellir gwneud un taliad am oes, sef £100, neu drwy Archeb Banc yn flynyddol.
9. Os metha ymgeisydd llwyddiannus fod yn bresennol i'w (h)urddo yn yr Eisteddfod Genedlaethol gyntaf wedi'r arholiadau, gellir trefnu'r urddo yng Ngorsedd yr Eisteddfod nesaf a fo'n gyfleus.
10. Y mae pawb a urddir yn aelodau o'r Orsedd yn ymrwymo i fod yn ffyddlon iddi, i barchu ei rheolau, ac i ymddwyn yn deilwng o'i hurddas. Aelodau'r Orsedd yn unig sydd â'r hawl i fod yng Nghylch yr Orsedd, i fod yn bresennol yng Nghyfarfod Blynyddol yr Orsedd, ac i wisgo gwisg eu Hurdd yn yr Orsedd.
11. Ni chaniateir defnyddio Gwisg yr Orsedd ond yn ei chynulladau, nac ymddangos yn yr Orsedd heb wisg briodol yr Urdd.
12. Yn rhinwedd ei aelodaeth bydd pob aelod o'r Orsedd yn aelod hefyd o Lys yr Eisteddfod Genedlaethol, a disgwylir iddynt fod yn bresennol yng Nghyfarfod Blynyddol y Llys.
13. Os bydd ymgeisydd yn analluog i sefyll yr arholiad oherwydd afiechyd, caniateir iddo/iddi gynnig y flwyddyn wedyn heb orfod talu eilwaith. Dylid hysbysu'r Trefnydd mewn achosion fel hyn.

Am unrhyw fanylion pellach, cysyllter â'r Trefnydd:

Dr W. Gwyn Lewis (Gwyn o Arfon)
Llys Cerdd
80 Cae Gwyn
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1LL

☎ 01286 676651

e-bost: wgwyn.lewis@btinternet.com